Mining Josef Herman has enabled new audiences to engage with digitised archives and created opportunities for members of the public to work with artists to make their own creative responses for publication online. As part of the project the Foundation's archives in Ystradgynlais were organised, digitised and are now accessible through local archives and the National Library of Wales, Aberystwyth/

Caniataodd Mining Josef Herman i gynulleidfaoedd newydd ddod o hyd i archifau digidol, a chreuodd gyfleoedd i aelodau'r cyhoedd weithio gydag arlunwyr i ffurfio eu hymatebion eu hun er mwyn eu cyhoeddi ar-lein. Fel rhan o'r prosiect trefnwyd a digidolwyd archifau'r Sefydliad, a leolir yn Ystradgynlais, ac mae nhw nawr i'w gweld mewn archifau lleol ac yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth/

# Mining Josef Herman/

O 2013 hyd 2015 gweithiodd Sefydliad Celf Josef Herman Cymru gyda Tate mewn partneriaeth o ddwy flynedd ar brosiect o'r enw Mining Josef Herman fel rhan o Archives and Access - rhaglen genedlaethol a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri/

From 2013 to 2015 the Josef Herman Art Foundation Cymru worked with Tate on a two year partnership project called Mining Josef Herman as part of Archives and Access - a national programme supported by the Heritage Lottery Fund/


TATE

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

THE JOSEF HERMAN ART FOUNDATION CYMRU
SEFYDLIAD CELF JOSEF HERMAN CYMRU

*Mining Josef Herman* is part of *Archives and Access*,
led by Tate and funded by the Heritage Lottery Fund

*Mae Mining Josef Herman* yn rhan o *Archives and Access*,
a arweinir gan y Tate a noddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery®
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

THE WELFARE
Y NEUADD LES
YSTRADGYNLAIS

# Josef Herman
# yn Ystradgynlais / in Ystradgynlais



Llun / Photo : Bernard Mitchell

Teithiodd Josef Herman, yr artist rhyngwladol adnabyddus o Wlad Pwyl i Wlad Belg i astudio Mynegiadwyr Gwlad Belg. Ar ôl ymosodiad yr Almaen, ffodd i Ffrainc ac yna i Brydain gan aros yn Glasgow. Ar ôl cwrdd yn ddamweiniol â Dai Alexander, glöwr ac awdur straeon byrion, daeth i Ystradgynlais lle daeth yn rhan o'r gymuned a bu'n byw yno am un mlynedd ar ddeg o 1944 tan 1955. Roedd y paentiadau, y darluniau a'r printiau a wnaeth Josef Herman yn ystod y cyfnod hwn wedi dangos bywyd y gymuned, yn benodol ei ddelweddau o'r glowyr.

Yn 2002, rhoddodd Nini Herman, gweddw Josef, gasgliad o'r darluniau a'i brintiau i Ystradgynlais i gydnabod pwysigrwydd cyfnod Josef yn y pentref. Sefydlwyd Sefydliad Celf Josef Herman Cymru i ofalu am ei gasgliad, i anrhydeddu cymynrodd Herman ac i annog y cyhoedd o bob oedran i werthfawrogi celf weledol.

The internationally renowned émigré artist Josef Herman travelled from Poland to Belgium to study the Belgium Expressionists. After the German invasion he escaped to France and then to Britain ending up in Glasgow. A chance encounter with miner and short story writer, Dai Alexander, brought him to Ystradgynlais where he became part of the community and stayed for eleven years from 1944 and 1955. The extraordinary paintings, drawings and prints Josef Herman made during this time captured the life of the community, most notably in his images of miners.

In 2002 Nini Herman, Josef's widow, donated a collection of his drawings and prints to Ystradgynlais in recognition of the importance of Josef's stay in the village. The Josef Herman Art Foundation Cymru was established to care for this collection, honour Herman's legacy and encourage public appreciation of the visual arts by people of all ages.







***Uchaf ar y chwith / Top Left:***
*Josef Herman*
*Ar y ffordd ger y tip, Ystradgynlais yn y cefndir /*
*Sketch of on the road near the tip, Ystradgynlais in background*
*TGA 835/14 | c 1951 - 1952*
***Gwaelod ar y chwith / Bottom Left:***
*Josef Herman*
*Pum oedolyn, a dau faban a phlentyn gyda chi a gafr /*
*Sketch of five adults, and two babies and a child, with a dog and a goat*
*TGA 835/25 | Dyddiad anhysbys / Date not known*
***Ar y dde / Right:***
*Josef Herman*
*Glowr yn penlinio / Sketch of a kneeling miner*
*TGA 835/93 | 1951*

*© Ystad Josef Herman / Estate of Josef Herman*
*Released by Tate under Creative Commons CC-BY-NC-ND 3.0 (unported) /*
*Rhyddhawyd gan y Tate dan Creative Commons CC-BY-NC-ND 3.0 (unported)*

# Archives and Access

Rhaglen uchelgeisiol o bum mlynedd yw Archives and Access, sy'n cynnwys defnydd digidol, dysgu a chyfranogiad. Mae'n galluogi bod 52,000 o eitemau archifau Tate, gan gynnwys nifer helaeth yn ymwneud â Josef Herman, ar gael ar-lein. Hefyd mae'n gwahodd cyfranogiad a dysgu trwy wefan Tate. Caniatâ rhaglen newydd Tate Albums bod pobl yn gallu grwpio, labelu, anodi a rhannu ar-lein eu dewisiadau eu hun o weithiau celf ac eitemau archifol. Bydd ymwelwyr ar-lein yn medru defnyddio cyfres o adnoddau dysgu newydd sy'n cyd-fynd â'r casgliad digidol newydd.

Mae'r adnoddau ac offer archifol hyn yn cael eu defnyddio fel sail i brosiectau dysgu cyfrannol mewn pump ardal ym Mhrydain Fawr rhwng 2013 a 2017. Arweinir y cyntaf o'r rhain gan Sefydliad Celf Josef Herman Cymru yn Ystradgynlais. Y gweddill yn y rhaglen yw Tate Britain; Tate Liverpool; Laing Art Gallery, Newcastle (Tyne & Wear Archives & Museums); Turner Contemporary, Margate.

***Cefnogir Archives and Access gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Sefydliad Celf Josef Herman Cymru ac mae hefyd wedi derbyn cefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru.***

Archives and Access is a five-year national programme of digital access, learning and participation. It is making 52,000 items from Tate's archives fully accessible online, including a significant number relating to Josef Herman, and inviting participation and shared learning through the Tate website. Tate's new Albums feature allows people to group, tag, annotate and share their own selections of artworks and archive items online and visitors to the website will also be able access a series of new learning resources related to the digitised archive collections.

These archive materials and digital tools are being used as the basis for partnership learning projects in five different areas of the UK between 2013 – 2017. The first of these projects, Mining Josef Herman, has been led by the Josef Herman Art Foundation Cymru in Ystradgynlais, South Wales. The programme also involves Tate Britain; Tate Liverpool; the Laing Art Gallery, Newcastle (Tyne & Wear Archives & Museums) and Turner Contemporary, Margate.

***Archives and Access is supported by the Heritage Lottery Fund. The Josef Herman Art Foundation Cymru has also received support from Arts Council of Wales.***







***Uchaf ar y chwith / Top Left:***
*Josef Herman*
*Gwraig feichiog yn y tirlun (Nodiadau o Ddyddiadur Cymraeg) /*
*Pregnant woman in landscape (Notes from a Welsh Diary)*
*TGA 835/27 | 1948*
***Gwaelod ar y chwith / Bottom Left:***
*Josef Herman*
*Ar wyneb y lofa / Sketch of a mine with slag heap beyond*
*TGA 835/133 | Dyddiad anhysbys / Date not known*
***Ar y dde / Right:***
*Josef Herman*
*Tri glöwr yn aros am y lifft / Sketch of three miner waiting for lift*
*TGA 835/92 | 1946*

*© Ystad Josef Herman / Estate of Josef Herman*
*Released by Tate under Creative Commons CC-BY-NC-ND 3.0 (unported) /*
*Rhyddhawyd gan y Tate dan Creative Commons CC-BY-NC-ND 3.0 (unported)*

# Canlyniadau'r Prosiect / Project Outcomes

## Achlysuron Cymunedol Agored

Galluogodd y prosiect i'r Sefydliad ddatblygu partneriaethau presennol a newydd gyda mudiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac i ffurfio cysylltiadau â grwpiau ac unigolion cymunedol lleol. Cyflawnwyd hyn trwy gyfres o ddigwyddiadau cymunedol a oedd yn gwahodd pobl i rannu eu hatgofion o Josef Herman; eu storïau am y cyfnod yr oedd yn byw yn Ystradgynlais; a'u syniadau am beth y golyga gwaith Herman i'r gymuned leol. Hysbysodd yr wybodaeth yma ddatblygiad y prosiect a chynhyrchodd adnoddau i archif digidol cymunedol newydd y Sefydliad i'w rhannu trwy raglen Tate Albums. Roedd yr Achlysuron Cymunedol Agored yn cynnwys:

**Digwyddiad Marchnad** oedd yn dechrau'r prosiect gan gynnig diwrnod o gyflwyniadau, gweithgareddau, trafodaethau a stondinau a oedd yng ngofal grwpiau a mudiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ymysg y rhain roedd cynrychiolwyr o Gymdeithas Treftadaeth ac Iaith Ystradgynlais; The Contemporaries Group; Llyfrgell Glowyr De Cymru; Eisteddfod Genedlaethol Cymru; Casgliad y Werin Cymru; Clwb Celf Ysgol Maesydderwen, Ystradgynlais; Gweithdy Branching Out ( Cydweithrediad rhwng yr arlunydd Erin Rickard ac Academi Tongeren ); Prosiect y Cawr Cwsg; Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog, Oriel Gelf Glynn Vivian.

**Diwrnod a Noson Agored** gyda dangos ffilmiau, sesiynau a rhannu gwybodaeth. Hefyd roedd y rhain yn cynnwys gweithgaredd a oedd yn gwahodd pobl y gymuned i helpu Tate i fapio eu casgliad o sgetsys Herman i leoliadau yn Ystradgynlais.

**Sesiynau rheolaidd galw heibio ym moreau coffi dydd Gwener** yn y Neuadd Les, Ystradgynlais, lle mae pobl yn gallu trafod y prosiect a sut yr hoffen nhw gyfrannu at Archif Mining Josef Herman.

## Open Community Events


The project enabled the Foundation to develop new and existing partnerships with national, regional and local organisations and make connections with local community groups and individuals. This was achieved through a series of open community events that invited people to share their memories of Josef Herman, their stories of the times in which he lived in Ystradgynlais and their ideas about what Herman's legacy means to the community. This information informed the development of the project and generated content for the Foundation's new digital community archive and to be shared via Tate's Albums feature. The Open Community Events included:

**A Market Place Event** that marked the start of this project, offering a day of presentations, activities, discussion and stalls hosted by local, regional and national groups and organisations. This included representatives from Ystradgynlais Heritage and Language Society, the Contemporaries Group, South Wales Miners' Library, National Eisteddfod of Wales, People's Collection Wales, Maesydderwen School, Ystradgynlais Arts Club, Branching Out Workshop (a collaboration between artist Erin Rickard and The Academy, Tongeren), The Sleeping Giant Project, Brecknock Museum and Art Gallery, and Glynn Vivian Art Gallery.

**An Open Day and Evening** with film screenings and information sharing sessions. These also included an activity that invited people to help Tate to map its archive collection of sketches by Herman to locations in Ystradgynlais.

**Regular drop in sessions at Friday Coffee Mornings** in The Welfare Ystradgynlais at which people could discuss the project and how they may like to contribute with the Mining Josef Herman Archive Intern.














***Delweddau / Images:***

***1 :*** *Arlunydd ac Ymddiriedolwr Sefydliad Celf Josef Herman Cymru, Valerie Ganz yn trafod gwaith, bywyd a chyfnod Josef Herman gyda phlant ysgol yn Lle'r Farchnad, Mining Josef Herman / Artist and Josef Herman Art Foundation Cymru Trustee Valerie Ganz discussing the work, life and times of Josef Herman with school children at the Mining Josef Herman Market Place*
*2013 © Sefydliad Celf Josef Herman Cymru / Josef Herman Art Foundation Cymru*

***2, 5 :*** *Cyfranogwyr yn dysgu am Raglen Tate Albums mewn Gweithdy Tate- Hyfforddi a Rhannu Arfer / Participants Learning about Tate Albums Feature at a Tate Training and Practice Sharing Workshop*
*2014 © Tate, Lluniau / Photos: Matt Colquhoun*

***3, 4, 6 :*** *Cyfranogwyr yn mwynhau Gweithdy Tate - Hyfforddi a Rhannu Arfer / Participants enjoying a Tate Training and Practice Sharing Workshop*
*2014 © Tate, Lluniau / Photos: David Clarke*

## Gweithdai Hyfforddiant a Rhannu Arfer

Cynhaliwyd cyfres o Weithdai Hyfforddiant a Rhannu Arfer mewn cydweithrediad â Tate i osod sail y prosiect ac i arwain ei ddatblygiad trwy gyfnewid syniadau, sgiliau a gwybodaeth rhwng partneriaid y prosiect.

## Training and Practice Sharing Workshops

A series of Training and Practice Sharing workshops were held in collaboration with Tate to set the scene for the project and steer its development through an exchange of ideas, skills and knowledge between the project partners.

## Arlunydd yr Archif

Penodwyd Catrin Sarah James fel Arlunydd Archif Mining Josef Herman, un o bedwar hyfforddeiaeth Learning and Archive a gynigiwyd fel rhan o'r rhaglen Archives and Access.

Yn gweithio gyda Sefydliad Celf Josef Herman Cymru a'i chefnogi gan bartneriaid y prosiect (Tate, Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Llyfrgell Glowyr De Cymru, Oriel Gelf Glynn Vivian, Llyfrgell Genedlaethol Cymru) dechreuodd Catrin ar gynllun dysgu unigol. Trefnodd raglen o weithgareddau ac ymweliadau i ddatblygu'r sgiliau a alluoga hi i ddilyn gyrfa ym myd y celfyddydau a threftadaeth.

Dros gyfnod o flwyddyn a hanner cyfrannodd Catrin tuag at ddatblygiad archif digidol cymunedol y Sefydliad a helpu i sicrhau bod casgliad o weithiau celf gwreiddiol Josef Herman ar gael i bawb. Gwnaeth hi gatalog o'r casgliad, casglodd ac archifodd hanesion ar lafar a defnydd digidol arall a chynorthwyodd gyda chynhyrchu gweithgareddau dysgu.

## Archive Internship

Catrin Saran James was appointed as the Mining Josef Herman Archive Intern, one of four Learning and Archive traineeships offered as part of the Archives and Access programme.

Based with the Josef Herman Art Foundation Cymru and supported by the project partners (Tate, West Glamorgan Archives Service, South Wales Miners Library, Glynn Vivian Art Gallery and the National Library of Wales), Catrin undertook an individual work-based learning plan and a programme of activities and visits to develop skills to enable her to pursue a career in the arts and heritage sector.

Over the course of 18 months Catrin contributed towards the development of the Foundation's digital community archive and the accessibility of its collection of original Josef Herman artworks by cataloguing the collection; collecting and archiving oral histories and other archival material; and assisting with the delivery of learning outreach activities.







## Gweithdai Cymunedol Oriel Gelf Glynn Vivian

Agorwyd nifer o weithdai cymunedol mewn cydweithrediad ag Oriel Gelf Glynn Vivian ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe fel ymateb i waith Josef Herman yn yr arddangosfa 'Llafur'. Roedd y gweithdai yn cynnwys sesiynau dysgu i oedolion, pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu, gan ddefnyddio Gwasanaeth Dydd Abertawe yn Toronto Place; Gorseinon; Abergelli; Beeches; Tŷ Lafant.

## Glynn Vivian Art Gallery Community Workshops

A series of community workshops were delivered in collaboration with Glynn Vivian Art Gallery and the National Waterfront Museum in Swansea in response to the work of Josef Herman in the exhibition 'Llafur'. These included sessions with adult learners, older people and people with learning disabilities using Swansea Day Service at Toronto Place, Gorseinion, Abergelli, Beeches and Tŷ Lafant.

***Delweddau: (chwith i'r dde ) / Images (left to right):***

*Catrin Saran James, Arlunydd Archif 'Mining Josef Herman', yn gweithio gydag aelodau'r gymuned leol ym More Coffi Gwener yn Y Neuadd Les, Ystradgynlais i fapio a thrafod delweddau Josef Herman o Ystradgynlais a'i phobl, a welir yng nghasgliad Tate / Mining Josef Herman Archive Intern, Catrin Saran James, working with local community members at The Welfare Ystradgynlais' Friday Coffee Morning to map and discuss images from Tate's collection of Josef Herman's images of Ystradgynlais and its people. 2014 © Sefydliad Celf Josef Herman Cymru / © Josef Herman Art Foundation Cymru*

*Dysgwyr mewn Oed yn mynychu cyfres o weithdai a drefnwyd mewn cydweithrediad ag Oriel Gelf Glynn Vivian ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe fel ymateb i waith Josef Herman yn yr arddangosfa 'Llafur' / Adult Learners undertaking a series of community workshops delivered in collaboration with Glynn Vivian Art Gallery and the National Waterfront Museum in Swansea in response to the work of Josef Herman in the exhibition 'Llafur'. 2013 © Bill Blythe*

*Delweddau a gynhyrchwyd gan Ddysgwyr mewn Oed fel ymateb i waith Josef Herman yn yr arddangosfa 'Llafur' yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe /Images produced by Adult Learners in response to the work of Josef Herman in the exhibition 'Llafur', at the National Waterfront Museum in Swansea. 2013 © Bill Blythe*

# Prosiect Ysgolion Josef Herman

Ers 2000 mae'r prosiect blynyddol Prosiect Ysgolion Josef Herman wedi bod yn rhan hanfodol o weithgareddau Sefydliad Celf Josef Herman Cymru. Mae'r prosiect trawsffiniau sirol hwn yn gosod arlunwyr profiadol yn ysgolion Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Powys ac Abertawe i weithio gyda disgyblion i'w cynorthwyo i ddatblygu eu hymatebion artistig eu hun i fywyd, cyfnod a gwaith yr arlunydd a'r ffoadur o Wlad Pwyl, sef Josef Herman. Mae'r prosiect pwysig hwn yn un modd sut y ceisia'r Sefydliad sicrhau bod y casgliad o waith Herman ar gael i bawb, ac i ddathlu celfyddyd yr arlunydd byd enwog.

Yn ystod 2014 a 2015 ffurfiodd Mining Josef Herman raglen o weithgareddau mewn cydweithrediad â Tate. Canolbwyntiodd y rhaglen ar ymchwilio i waith a bywyd Josef Herman trwy archifau a dysgu digidol a hefyd symbylodd gynnwys ac adnoddau dysgu i'w rhannu trwy raglen Tate Albums.

Ar ddiwrnod cyntaf y prosiect cerddodd y bobl ifanc yn ôl traed Herman wrth ymweld ag Ystradgynlais i weld a sgetsio'r cwm, y capeli, y tai a'r stiwdio lle'r oedd yr arlunydd yn byw a gweithio. Aethant hefyd i weld casgliad y Sefydliad o ddarluniau a phrintiau Herman sydd i'w gweld yn Y Neuadd Les, Ystradgynlais.

Yn 2014 cyflwynwyd y daith hon o amgylch Ystradgynlais trwy 'Joe Bach - Ymson', perfformiad promenâd a ddatblygwyd gan Lighthouse Theatre. Roedd y perfformiad yn cynnwys y disgyblion yn cyfarfod â'r arlunydd ei hun ar strydoedd y pentref ac yna mynd gydag ef i'w hoff leoedd.

Yn ôl yn y dosbarth, gweithiodd y bobl ifanc gyda'u harlunydd penodol i ymchwilio i archif Herman ar wefan Tate, i archwilio ei dechnegau artistig yn fanwl, a chreu eu gweithiau celf eu hun a seilwyd ar yr hyn a ddysgant, gan ddefnyddio ystod eang o gyfryngau celf fel arlunio, gwneud papur, gwneud llyfrau, portreadu, animeiddio, ffilmiau a modelau 3-D.

Diweddglo'r prosiect bob blwyddyn yw arddangosfa ddathliadol gyda'r disgyblion yn rhannu eu campau artistig a'r gwaith a grëwyd ganddynt yn ystod y rhaglen.

**I Brosiect Ysgolion Josef Herman 2014** cyflwynwyd gweithdai tymor yr haf gan yr arlunydd Alastair Duncan, a weithiodd gyda disgyblion Ysgol Gynradd Penllergaer, Abertawe; Ysgol Gynradd Mynachlog Nedd, Castell-nedd Port Talbot; Ysgol Golwg y Cwm ac Ysgol Gynradd Mount Street, Powys. Yn nhymor yr hydref buodd yr arlunydd Carolina Vasquez yn arwain gweithdai yn Ysgol Gynradd Penygaer ac Ysgol Gynradd Bryn, Sir Gaerfyrddin.

Cyflwynwyd Prosiect 2014 mewn partneriaeth â Swyddogion Celf mewn Addysg y Cynghorau Lleol canlynol : Cyngor Dinas a Sir Abertawe; Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Cyngor Sir Powys; Cyngor Sir Gaerfyrddin.

**I Brosiect Ysgolion Josef Herman 2015** cyflwynwyd gweithdai tymor y gwanwyn a thymor yr haf gan ddau arlunydd proffesiynol, Blue Macaskill a Julian Lewis gyda dau arlunydd cyn-radd, Chloe Stevenson a Ffion Roberts- Drakley a weithiodd gydag ysgolion ymhob un o'r siroedd a oedd yn gysylltiedig â'r Prosiect.

Yr ysgolion a gymerodd ran oedd Ysgol Bro Tawe, Powys; Ysgol y Cribarth, Powys; Ysgol Brynsierfel, Sir Gaerfyrddin; Ysgol Gynradd Craigfelen, Abertawe; Ysgol Gyfun Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot.


Cefnogwyd y prosiectau yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant trwy'r rhaglen Arts in Action, sy'n darparu hyfforddiant a mentora i artistiaid cyn-radd.












***Delweddau / Images:***

***1, 5 :*** *Plant ysgol yn dysgu sgiliau arlunio newydd wrth ddefnyddio cyfrwng digidol, fel rhan o Brosiect Ysgolion Josef Herman Cymru 2014 / School children learning new drawing skills through digital media as part of the Josef Herman Schools Project 2014*
*2014 © Sefydliad Celf Josef Herman Cymru / © Josef Herman Art Foundation Cymru. Llun / Photo 1 : Lynn Bebb, Ffoto / Llun 5 : Alastair Duncan*

***2, 3, 4 :*** *Joe Bach - Ymgom'. Perfformiad Promenâd a ddatblygwyd a pherfformiwyd yn Ystradgynlais gan Lighthouse Theatre / 'Joe Bach – A Monologue', a promenade performance developed and performed by Lighthouse Theatre in Ysytradgynlais*
*2014 © Sefydliad Celf Josef Herman Cymru / © Josef Herman Art Foundation Cymru*

# Josef Herman Schools Project

Since 2000 the annual Josef Herman Schools Project has been part of the Josef Herman Art Foundation Cymru's core activity. This cross-county border project places artists-in-residence with schools in Carmarthenshire, Neath Port Talbot, Powys and Swansea to work with pupils to develop their own artistic responses to the life, times and work of Josef Herman. The Josef Herman Schools Project is one way in which the Foundation seeks to make its collection of original Josef Herman artworks accessible to all and celebrate the legacy of this internationally renowned artist.

In 2014 and 2015 it formed part of the Mining Josef Herman programme of activities with Tate. The project focused on exploring the work and legacy of Josef Herman through archives and digital learning and generated content and learning resources to be shared through Tate's Album's platform.

On the first day of the project the young people walked in Herman's footsteps by visiting Ystradgynlais and viewing and sketching the valley, chapels, houses and studios where he once lived and worked. They also visited the Foundation's collection of Herman prints and paintings on display in the Welfare Ystradgynlais.

In 2014 this tour of Ystradgynlais was delivered through 'Joe Bach – A Monologue', a promenade performance developed by Lighthouse Theatre. The performance involved pupils encountering the artist himself on the streets of the village who then took them to visit his favourite places.

Back in the classroom the young people worked with their artist-in-residence to research Herman's archive on the Tate website, explore his artistic techniques in depth and make their own artworks based on what they had learned, using a variety of art forms including drawing, papermaking, bookmaking, portraiture, animation, films and three-dimensional modelling.

The project culminated each year in a celebratory exhibition sharing the achievements and work created by the pupils during the project.

**For the Josef Herman Schools Project 2014** workshops were delivered by artist Alastair Duncan over the Summer term with Penllergaer Primary School, Swansea; Mynachlog Nedd Junior School, Neath Port Talbot; and Ysgol Golwg Y Cwm and Mount Street Juniors, Powys. In the Autumn artist Carolina Vasquez delivered workshops with Penygaer Primary School and Bryn Primary School, Carmarthenshire.

The 2014 project was delivered in partnership with Local Authority Arts in Education Officers from City & County of Swansea Council, Neath Port Talbot County Borough Council, Powys County Council and Carmarthenshire County Council.

**For the Josef Herman Schools Project 2015** workshops were delivered in the Spring and Summer by two professional artists, Blue MacAskill and Julian Lewis, and two undergraduate artists, Chloe Stevenson and Ffion Roberts-Drakeley, working with schools in each of the partner counties.

The participating schools were Ysgol Bro Tawe, Powys; Ysgol Y Cribath, Powys; Ysgol Brynsierfel, Carmarthenshire; Craigfelen Primary School, Swansea; Ysgol Gyfun Ystalyfera, Neath Port Talbot.

The projects in Neath Port Talbot and Carmarthenshire were delivered through the University of Wales Trinity St David's Arts in Action programme, which provided training and mentoring for the undergraduate artists.



1



2



3



4

***Delweddau / Images:***

***1, 2, 3 :*** *Disgyblion yn cymryd rhan ym Mhrosiect Ysgolion Josef Herman 2015 / Pupils taking part in the Josef Herman Schools Project 2015*
*2015 © Sefydliad Celf Josef Herman Cymru / © Josef Herman Art Foundation Cymru*
*Llun / Photo: Ffion Roberts Drakley*

***4 :*** *Yr arlunydd Blue Macaskill yn dadorchuddio gweithiau celf gwreiddiol Josef Herman gyda phlant ysgol, fel rhan o Brosiect Ysgolion Josef Herman 2015 yn Y Neuadd Les, Ystradgynlais / Artist Blue MacAskill unwraps original Josef Herman artworks with school children at The Welfare Ystradgynlais as part of the Josef Herman Schools Project 2015*
*2015 © Sefydliad Celf Josef Herman Cymru / © Josef Herman Art Foundation Cymru*

## Arlunydd Gwadd Mining Josef Herman

Dros gyfnod o naw mis datblygodd a gweithredodd yr arlunydd Rabab Ghazoul gyfres o weithdai ar gyfer pob oedran. Ysgogodd grwpiau ac unigolion lleol i ddod o hyd i'w hymatebion eu hun i archif Tate a'u creu; i gasgliad Sefydliad Celf Josef Herman Cymru o weithiau celf gwreiddiol Josef Herman; ac i gyfnod, bywyd a gwaith Herman yn Ystradgynlais.

Mae Rabab yn artist gweledol sy'n hoffi cyfarfod a gweithio gyda'r cyhoedd. Yn aml mae ei gweithgareddau yn gwestiynau iddi hi ei hun, neu i eraill feddwl am wir ystyr geiriau fel 'cymuned', 'democratiaeth', 'gyda'i gilydd' 'perthyn'. Yn 2015 cynrychiolodd Irac ym Mhafiliwn Irac yn Y Venice Biennale gyda gwaith o'r enw 'It's a long way back (Chilcot/Part 1)', gan ddefnyddio trawsgrifiad a dogfennau 2010 Tony Blair o'i dystlythyr i Archwiliad Chilcot (Ymchwiliad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r ymosodiad ar Irac).

Daeth Rabab â'i hymarferion ei hun i'r prosiect a chafodd ei thynnu i edrych ar ysgrifau a dyddiaduron Herman sy'n rhoi sylwebaeth drawiadol i'w weithiau celf. Mae arsylwadau Herman ar dlodi, anghyfiawnder, bywydau'r dosbarth gweithiol, tirlun, cymuned a chyflwr dynolryw mor bwerus heddiw ag yr oedden nhw chwe deg o flynyddoedd yn ôl. Gweithiodd Rabab gyda grwpiau ac unigolion lleol i'w helpu i ganfod byd gweledol gwaith Herman trwy ei ysgrifau.

Dywedodd Herman am lowyr Ystradgynlais "But now and again one of them would sing holding his head up to the sun" Arweiniodd y dyfyniad hwn a'r traddodiad Cymreig o ganu corawl at ddatblygiad 'Then There Comes a Chaos of Things'- rihyrsal baratoadol agored o gân a ddilynwyd gan berfformiad y corau lleol - Côr Meibion y Gyrlais a Chôr B# Ysgol Gymunedol Cwmtawe - yn Y Neuadd Les, Ystradgynlais ar ddydd Sul, 12 Gorffennaf 2015.

Roedd y perfformiad yn ymchwilio i sgorau lleisiol a seiliwyd ar eiriau Herman gyda thair cenhedlaeth o gantorion yn gweithio gyda'i gilydd i anfarwoli gweithiau Josef Herman mewn modd newydd ac unigryw. Gwahoddwyd aelodau'r gymuned i alw heibio, naill am fyr amser neu am yr holl achlysur a oedd yn cynnwys cyflwyniad clywedol - gweledol ar gân o'r gweithiau. Gofynnwyd i'r gynulleidfa gynnig eu hymatebion personol i'r prosiect.



## Mining Josef Herman Artist-in-Residence

Over the course of 9 months artist Rabab Ghazoul developed and implemented a series of participatory activities and intergenerational workshops that encouraged local groups and individuals to access, engage with and create their own responses to Tate's archive, the Josef Herman Art Foundation Cymru's collection of original Herman artworks and the life, times and work of Josef Herman in Ystradgynlais.

Rabab is a visual artist interested in exploring our negotiations of the political and uses different media and different processes, often with a slant on the performative or the conversational. Her activities are often questions to herself and others around what words such as 'community', 'democracy', 'together' or 'belonging' could mean. For example, in 2015 Rabab represented Iraq in the Iraqi Pavilion at the Venice Biennale with a piece called 'It's a long way back (Chilcot/Part 1)', the first in a new series of works drawing upon the transcript and documentation of Tony Blair's 2010 testimonial to the Chilcot Inquiry into the invasion of Iraq).

Rabab brought her practice to the residency and she was drawn to look at Herman's writing and journals that provide a striking commentary to his visual work. His observations about poverty, injustice, the lives of working people, the landscape, community and the human condition resonate as powerfully today as they did sixty years ago. Rabab worked with local groups and individuals to open up the visual world of Herman's work through his writings.

Herman once said of the miners of Ystradgynlais: "But now and again one of them would sing, holding his head up to the sun." This reference and the Welsh tradition of singing and Male Voice Choirs led to the development of 'Then There Comes a Chaos of Things' a participatory open rehearsal of song followed by a performance with local choirs Cor y Gyrlais Male Voice Choir and Cwmtawe Community School B# Choir at The Welfare, Ystradgynlais on Sunday 12th July 2015.

The performance explored specially written vocal scores based on Herman's texts with three generations of singers working together to bring Josef Herman's work to life in a unique and new way. People were invited to drop in for a few minutes or the full duration of the event which consisted of an audio-visual presentation of the sung works and community responses from the project.

***Delweddau / Images :***

***1 :*** *Rabab Ghazoul, Arlunydd Prosiect Mining Josef Herman yn trafod gweithiau celf ac ysgrifau Josef Herman gydag aelodau'r gymuned leol ym More Coffi Gwener yn Y Neuadd Les, Ystradgynlais / Mining Josef Herman Project Artist Rabab Ghazoul discussing Josef Herman's artworks and texts with community members during a Friday Coffee Morning at The Welfare, Ystradgynlais*
*© Sefydliad Celf Josef Herman Cymru / © Josef Herman Art Foundation Cymru*

***2, 3, 4, 5 :*** *Aelodau o Gôr Meibion y Gyrlais a Chôr B# Ysgol Gymunedol Cwmtawe yn cymryd rhan yn 'Then There Comes a Chaos of Things'. Rabab Ghazoul 2015 / Members of Cor y Gyrlais Male Voice Choir and Cwmtawe Community School B# Choir taking part in 'Then There Comes a Chaos of Things', Rabab Ghazoul, 2015*
*© Sefydliad Celf Josef Herman Cymru © Josef Herman Art Foundation Cymru*
*Luniau / Photos: Katie Lionheart*

## Datblygu Archif Cymunedol ac Adnoddau Dysgu

Yn ystod y prosiect datblygwyd casgliad o ddefnyddiau dehongliadol, adnoddau, arddangosfeydd ac adnoddau ar-lein a rannwyd trwy raglen Tate Albums gan gynnwys:

- Ffilm gan artistiaid yn ymateb i 'Joe Bach-Ymson', a ddatblygwyd gan Theatr y Goleudy; cynhyrchwyd gan Y Sefydliad; noddwyd gyda grant o Gyngor Celfyddydau Cymru a chefnogwyd gan Y Neuadd Les, Ystradgynlais. Mae'r ffilm yn gelf yn ei hunan ond mae hefyd yn adnodd dysgu i ysgolion.

- Banc o hanesion newydd neu yn bodoli eisioes, wedi eu digidoli a'u harchifio gan Arlunydd Archif Mining Josef Herman.

- Adnoddau dysgu a gynhyrchwyd gan Arlunwyr Prosiect Ysgolion Josef Herman ac Arlunydd Preswyl Mining Josef Herman - adnoddau sydd ar gael trwy raglen Tate Albums.

- Ail- ddramodiad o Gyfweliad ar raglen Radio BBC 'Around Britain' (1945) pan oedd Talfan Davies yn holi Josef Herman. David Alexander(Dai Alex) ac Islwyn Williams. Digwyddodd yr ail-ddramodiad fel rhan o ddangosiad pen-blwydd 'The Silent Village' - ffilm fer o bropaganda Prydeinig yn tynnu sylw at Gyflafan Lidice. Cafodd y ffilm ei gwneud yng Nghwmgiedd, pentref yn agos iawn i Ystradgynlais, a'r cast yn cynnwys pobl yr ardal yn gyfangwbl. Roedd cynnwys y cyfweliad yn ymchwilio i'r teimladau o hunaniaeth a deimlwyd gan bentrefwyr Ystradgynlais a phentrefwyr Lidice; delweddau o ddau lôwr o Ystradgynlais a baentiwyd gan Herman; ac oriorau a chlociau a gynhyrchwyd yn yr ardal leol ond wedi cael eu hallfudo i bob cwr o'r byd.

## Developing a Community Archive and Learning Resources

During the project a collection of interpretative materials, resources, displays and online resources was developed and shared via Tate's Albums platform, including:

- An artists' film by Burst Production, made in response to 'Joe Bach – A Monologue' a promenade performance developed by Lighthouse Theatre produced by the Foundation and funded with an Arts Council of Wales grant and support from The Welfare, Ysytradgynlais. The film is an artwork in its own right but also functions as an educational resource for schools.

- A bank of new and existing oral histories recorded, digitised and archived by the Mining Josef Herman Archive Intern.

- Learning resources produced by the Josef Herman Schools Project artists and the Mining Josef Herman Artist in Residence, which are available via Tate's Albums feature.

- A re-enactment of a 1945 'Around Britain' BBC Radio Interview by Talfan Davies with Josef Herman, David Alexander (Dai Alex) and Islwyn Williams. The re-enactment took place as part of an anniversary screening of 'The Silent Village', a 1943 British propaganda short film about the Lidice massacre. The film was made in Cwmgiedd, a village close to Ystradgynlais, with a cast made up entirely of local people. The content of the interview explores feelings of identity between the villagers of Lidice and Cwmgiedd; a representation of two miners from Ystradgynlais, painted by Herman; and watches and clocks made in the local area, which had found their way to all parts of the world.



***Delweddau (chwith i'r dde ) / Images (left to right):***

*Carole Hopkin, Ymddiriedolwr Sefydliad Celf Josef Herman Cymru yn cael ei chyfweld ar gyfer 'Animating the Archives'- ffilm a gynhyrchwyd gan Tate yn ymchwilio i Josef Herman a'i effaith ar Ystradgynlais / Josef Herman Foundation trustee Carole Hopkin being interviewed for 'Animating the Archives', a film made by Tate Britain exploring Josef Herman and his legacy in Ystradgynlais*

*George Brinley Evans o Fanwen - Glôwr, Milwr, Arlunydd a Llenor sydd wedi cyfrannu stori unigryw a phersonol i brosiect hanes sgwrs Mining Josef Herman /*
*George Brinley Evans from Banwen. A Miner, Soldier, Artist and Writer who has contributed a unique and personal story to the Mining Josef Herman oral history project*
*© Sefydliad Celf Josef Herman Cymru / © Josef Herman Art Foundation Cymru*

*Ail ddramodiad gan aelodau'r gymuned o Gyfweliad ar raglen Radio BBC 'Around Britain' (1945) pan oedd Talfan Davies yn holi Josef Herman, David Alexander (Dai Alex) ac Islwyn Williams /*
*A re-enactment by local community members of a 1945 'Around Britain' BBC Radio Interview by Talfan Davies with Josef Herman, David Alexander (Dai Alex) and Islwyn Williams*
*© Sefydliad Celf Josef Herman Cymru / © Josef Herman Art Foundation Cymru*